CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

**Adroddiadau Estyn Reports**

**HAF 2017 SUMMER.**

**Ysgol Gynradd Dwyran.**

Mae gan yr ysgol gynlluniau gwaith priodol sy'n ymateb i ofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol a'r maes llafur cytûn ar gyfer addysg grefyddol. Maent yn gytbwys a diddorol ac yn darparu ystod dda o brofiadau dysgu i'r disgyblion. Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi dechrau addasu'r cynlluniau mewn partneriaeth gyda'r ysgolion uno i wella dilyniant a datblygiad yng ngwaith y disgyblion.

Mae amrywiaeth dda o weithgareddau allgyrsiol ar gael i'r disgyblion, sy'n cyfoethogi eu profiadau yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae ymweliadau i Oriel Môn, Eglwys Llangeinwen a choedwigoedd sy'n gwarchod cynefin y wiwer goch yn hybu dealltwriaeth y disgyblion o nodweddion hanesyddol ac amgylcheddol eu hardal yn llwyddiannus. Mae cyfleoedd addas i'r disgyblion ddysgu am draddodiadau, hanes a diwylliant Cymru. Maent yn astudio gwaith arlunydd lleol ac yn dathlu dydd Santes Dwynwen a dydd Gŵyl Dewi Sant.

Mae'r ysgol yn meithrin datblygiad ysbrydol, moesol, diwylliannol a chymdeithasol y disgyblion yn llwyddiannus trwy weithgareddau'r cwricwlwm, cyfnodau amser cylch a chyd-addoli perthnasol. Trefnir cyfleoedd addas i fyfyrio ar bynciau cyfoes i ystyried plant llai ffodus na hwy mewn gwledydd fel Syria.

*The school has appropriate schemes of work that respond to the requirements of the National Curriculum and the agreed syllabus for religious education. They are balanced and interesting and provide a good range of learning experiences for pupils. The school has recently begun to adapt the schemes in partnership with the merger schools to improve continuity and development in pupils' work.*

*A good variety of extra-curricular activities are available to pupils, which enrich their experiences successfully. For example, visits to Oriel Môn, St Ceinwen's Church and woodlands that protect the habitat of red squirrels promote pupils' understanding of their area's historical and environmental features successfully. There are suitable opportunities for pupils to learn about Welsh traditions, history and culture. They study the work of a local artist and celebrate St Dwynwen's Day and St David's Day.*

*The school fosters pupils' spiritual, moral, cultural and social development successfully through curriculum activities, circle time periods and relevant collective worship sessions. Suitable opportunities are arranged in order to reflect on current issues, for example to consider children who are less fortunate than themselves in countries such as Syria.*

**Ysgol Gynradd Henblas.**

Yn gyffredinol, mae'r profiadau yng nghyfnod allweddol 2 yn bodloni gofynion y cwricwlwm cenedlaethol ac addysg grefyddol yn briodol.

Trwy ei gweithdrefnau a'i pholisïau, mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad cymdeithasol, moesol, ysbrydol a chymdeithasol ei disgyblion yn effeithiol. Mae'r sesiynau addoli ar y cyd yn atgyfnerthu'r gwerthoedd hyn yn llwyddiannus. Mae'r ysgol hefyd yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol disgyblion trwy ddarparu cyfleoedd buddiol iddynt fyfyrio a chofio am eraill.

*In general, experiences in key stage 2 meet the requirements of the National Curriculum and religious education appropriately.*

*Through its procedures and policies, the school promotes pupils' social, moral and spiritual development effectively. Collective worship sessions reinforce these values successfully. The school also promotes pupils' spiritual development by providing beneficial opportunities for them to reflect and remember others.*

**<u>Ysgol Uwchradd Caergybi</u>**

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys sy'n bodloni anghenion bron pob un o'i disgyblion. Rhoddir amser priodol i fodloni gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol, addysg grefyddol ac addysg bersonol a chymdeithasol.

Mae'r rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol yn cyfrannu'n dda tuag at ddatblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol disgyblion.

*The school provides a broad and balanced curriculum that meets the needs of nearly all of its pupils. Appropriate time is given to meet the requirements of the National Curriculum, religious education and personal and social education.*

*The personal and social education programme contributes well towards the spiritual, moral and cultural development of pupils*.

**<u>Ysgol Gynradd Pencarnisiog</u>**

<u>Argymhelliad 3 Arolwg 2016 *Recommendation 3 Inspection*</u>

Sicrhau bod cynlluniau gwaith yn ymateb yn llawn i ofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol a'r maes llafur ar gyfer addysg grefyddol

*Ensure that schemes of work respond fully to the requirements of the National Curriculum and the syllabus for religious education.*

<u>Llythyr Estyn Mehefin 2017 : Estyn letter of June 2017.</u>

Bernir bod Ysgol Pencarnisiog wedi gwneud cynnydd da o ran y materion allweddol ar gyfer gweithredu yn dilyn ymweliad Estyn ym Mai 2017. Byddwn yn awr yn tynnu enw'r ysgol oddi ar y rhestr o ysgolion y mae angen iddynt gael eu monitro gan Estyn. Ni fydd mwy o ymweliadau monitro gan Estyn mewn perthynas â'r arolygiad hwn.

*Ysgol Pencarnisiog is judged to have made good progress in respect of the key issues for action following the Estyn visit in May 2017. The school has been removed from the list of schools requiring Estyn monitoring. There will be no further Estyn monitoring visits in relation to this inspection.*